

## Llunio llinell

Bydd angen pren mesur wedi'i farcio mewn centimetrau a milimetrau.

- ◆ Defnyddiwch y pren mesur i dynnu 10 llinell syth o hyd gwahanol ar ddarn o bapur.
- ◆ Gofynnwch i'ch plentyn amcangyfrif hyd pob llinell ac ysgrifennu'r amcangyfrif ar y llinell.
- ◆ Yna rhowch y pren mesur i'ch plentyn a gofynnwch iddo fesur pob llinell i'r milimetr agosaf.
- ◆ Gofynnwch iddo ysgrifennu'r mesuriad wrth ymyl yr amcangyfrif, a chyfrifo'r gwahaniaeth.
- ◆ Bydd gwahaniaeth o 5 milimetr neu lai yn sgorio 10 pwynt. Bydd gwahaniaeth o 1 centimetr neu lai yn sgorio 5 pwynt.
- ◆ Pa mor agos i 100 pwynt all eich plentyn sgorio?

*Fy amcangyfrif 8.5 cm*

## Dyvalu rhifau

- ◆ Dewiswch rif rhwng 0 ac 1 ag un lle degol, e.e. 0.6.
- ◆ Heriwch eich plentyn i ofyn cwestiynau er mwyn dyvalu'r rhif. Gallwch ateb 'le' neu 'Na' yn unig. Er enghraifft, gall eich plentyn ofyn 'Ydy e'n llai na hanner?'
- ◆ Tybed a fydd yn gallu dyvalu gyda llai na 5 cwestiwn?
- ◆ Yna gadewch i'ch plentyn ddewis rhif cudd ei hunan.

Gallwch estyn y gêm drwy ddewis rhif ag un lle degol rhwng 1 a 10, e.e. 3.6. Efallai y bydd angen mwy o gwestiynau!

## Tablau


Gofynnwch ffaith dablau wahanol i'ch plentyn bob dydd, e.e.

*Beth yw 6 gwaith 8? Allwch chi ddefnyddio hyn i gyfrifo 12 x 8?*

a: *Beth yw 48 wedi ei rannu â 6?*

# Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 5

YGG Castell-nedd



## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

## Targedau – Blwyddyn 5 <sub>3</sub>

### Erbyn diwedd Blwyddyn 5, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu ...

- Lluosi a rhannu unrhyw gyfanrif hyd at 10 000 â 10 neu 100.
- Gwybod beth yw arwyddocâd y digidau mewn rhif degol, e.e. mae'r 6 yn 2.63 yn golygu 6 degolyn a'r 3 yn golygu 3 chanfed.
- Talgrynnu rhifau ag 1 lle degol i'r cyfanrif agosaf, e.e. bydd 9.7 yn talgrynnu i 10, a bydd 147.2 yn talgrynnu i 147.
- Defnyddio rhannu i ddod o hyd i ffracsiwn rhif, e.e. dod o hyd i bumed drwy rannu â 5.
- Cyfrifo yn eu pen y gwahaniaeth rhwng dau rif fel 3994 a 9007.
- Defnyddio papur a phensil i adio a thynnu rhifau mawr, e.e.  $5792 + 8436$ ,  $13\ 912 - 5829$ .
- Gwybod yr holl dablau lluosu hyd at  $10 \times 10$  ar eu cof.
- Dyblu rhifau hyd at 100 yn eu pen.
- Defnyddio papur a phensil i luosi a rhannu, e.e.  $328 \times 4$ ,  $72 \times 56$ ,  $329 \div 6$ .
- Tynnu llinellau a'u mesur i'r milimetr agosaf.
- Cyfrifo perimedr ac arwynebedd petryal, e.e. perimedr ac arwynebedd clawr llyfr sy'n mesur 25cm wrth 20cm.
- Datrys problemau geiriau ac esbonio'u dull.

### Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 5.

Mae'n bosib bod targed yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn tynnu 3994 o 9007 drwy ysgrifennu mewn colofnau heb sylweddoli ei bod yn haws cyfrif ymlaen o 3994 i 9007 yn eu pen.

### Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

#### Rhifau ceir

- ◆ Dewiswch rif car.
- ◆ Gallwch adio neu dynnu 10, 20, 30, 40, 50, 60, 70, 80 neu 90.
- ◆ Ceisiwch gyrraedd mor agos ag y gallwch at 555.
- ◆ Pwy sy'n dod agosaf mewn wythnos?

#### Rhannu rhifau

Bydd angen bwrdd 1–100 (bydd bwrdd nadredd ac ysgolion yn gwneud y tro), dis ac 20 darn arian neu gownteri.

- ◆ Cymerwch dro.
- ◆ Dewiswch rif dau ddigid. Rholiwch y dis. Os byddwch yn rholio 1, rholiwch eto.
- ◆ Os gallwch rannu eich rhif dau ddigid yn union â'r rhif ar y dis, rhowch gownter ar eich rhif dau ddigid chi. Os na, collwch dro.
- ◆ Y cyntaf i gael 10 cownter ar y bwrdd sy'n ennill.

